# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2024

Amser: 09.00 - 09.13

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Rhun ap Iorwerth AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Heledd Fychan. Roedd Rhun ap Iorwerth yn bresennol yn ei lle.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am yr ychwanegiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o ddiwylliant a gwerthoedd (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Y diwydiant lled-ddargludyddion cyfansawdd (30 munud)
- Datganiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr (30 munud)

- Ni fydd cyfnod pleidleisio.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.45pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

## 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau dwysáu ac ymyrryd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ystadau Cymru (30 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024 (5 munud)
- Dadl: Ffyniant Bro (60 munud)

**Dydd Mawrth 23 Ionawr 2024**

- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Strategaeth Tlodi Plant Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Economi Blaenau'r Cymoedd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adnewyddu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop (30 munud)
- Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024 (15 munud)

## 3.3 Amserlen y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2024 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar ddeisebau P-06-1359 a P-06-1362 ynghylch cymorth ar gyfer costau gofal plant (30 munud)
- Dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer: Sarah Murphy (Pen-y-bont ar Ogwr) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer Bil Diwygio'r Senedd, gan nodi'r terfyn amser newydd ar gyfer trafodion Cyfnod 2, sef 15 Mawrth 2024.

Hefyd cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno cynnig yng Nghyfnod 2, o dan Reol Sefydlog 26.17(iii), i ofyn am gytundeb y Senedd i drafodion Cyfnod 2 ar y Bil gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Senedd gyfan.

### 4.2 Diweddariad ar gyfer Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud yr hyn a ganlyn:

- cyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau ar gyfer craffu at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mawrth 2024.
- cyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ar gyfer craffu at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth,

Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mawrth 2024.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais y Pwyllgor Deisebau i gynnal dadl ar ddeisebau P-06-1359 a P-06-1362 ac i drefnu’r ddadl ar gyfer 31 Ionawr 2024.